Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
Skills Competition Wales

# Competition Brief

## Competition Title

**Brickwork**

## Competition Overview

A bricklayer lays bricks, pre-cut stone and concrete blocks to build internal and external wall structures for buildings. The type of wall can vary from plain walls to more complex work.

In this competition, competitors have to complete a specific project designed to challenge their ability. Competitors are expected to be able to follow drawings, measure accurately, effectively plan their time, demonstrate competence with tools and keep work stations clean and tidy and working safely at all times.

Live competition heats will be held at various venues across Wales.

## Entry Criteria

The competition is for those training for a career in the construction industry and studying towards but not yet achieved a Level 3 qualification or apprenticeship.
Please ensure that your entrants have the skills and competences to complete the task.

## Entry capacity restrictions by organisation

Maximum of up to 2 per location plus maximum of 2 reserves can be registered incase of absence.
This is the maximum number of entries permitted by an organisation for this competition.
This is determined by 'location' and 'organisation'. 'Organisation' refers to the competitors' training provider/employer. 'Location' refers to a site where the competitor studies / is employed. For further guidance on these capacities, click here

**Task Duration**
5 Hours

## Brief

Competitors will be given drawings and are required to carry out a brickwork task, which will challenge their ability to follow detailed

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2022 – Skills Competition Wales 2022

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

instructions, produce accurate and neat work outputs, be economical with materials whilst working to strict timescales.

Competitors will be required to demonstrate the following skills, in this competition;

- Lay to straight line
- Plumb level and gauge
- Demonstrate the ability to joint and maintain clean brickwork
- Demonstrate good housekeeping and Health & Safety

For more information please see the drawings on the Skills Competition Wales website.

## Infrastructure List

Competitors are required to bring their own tools. A workshop technician(s) will be available at the venue for mixing and distributing mortar to competitors and cleaning away waste materials throughout the competition.

## Competition Rules

For full terms and conditions of entry and competition rules visit:
[www.inspiringskills.gov.wales/terms-and-conditions](www.inspiringskills.gov.wales/terms-and-conditions)

### Generic competition rules

- Mobile phones are to be switched off during competition activity.
- Listening to music via headphones is not permitted during competition activity.
- Any questions during competition activity should be addressed to the competition judging panel.
- Competitors should not communicate with other competitors during competition activity.
- It is the responsibility of each competitor to arrive on time for each competition session. No additional time will be allowed if you arrive late.
- Technical failure of your equipment should be reported immediately to the judging panel. Additional time will be allocated if the fault is beyond the control of the competitor.

## Marking and Assessment

Marking and judging of this competition will be done by a team of experts from Industry, Further Education or Training Provider, using a marking criteria and allocated marks to ensure consistency.

**Brief breakdown of marking and assessment**
All marks are objective and will be awarded by the judges as follows:

| **Criteria** | **Marks** |
|---|---|
| Dimensions | 22.5% |
| Plumb | 20% |
| Square | 2.5% |
| Level | 10% |
| Alignment | 12.5% |
| Details | 12.5% |
| Jointing | 10% |
| Finish and Housekeeping | 5% |
| Health and Safety | 5% |
| **Total** | **100%** |

## Feedback and Recognition

Individual and Group verbal feedback will be provided at the end of the competition.

No results or awards will be awarded on the day as marking will be quality assured.

All competitors will be issued with a Participation Certificate and invited to an online Celebration Event which will be held Thursday 9th March 2023, where the First, Second and Third Awards will be announced. Further details will be communicated to competitors and their points of contacts by email.

Marksheets will be made available to competitors after the quality assurance process has been completed.

## Competition Lead

**Lead Contact:**
Huw Thomas
Email address - huw.thomas@ceredigion.ac.uk
01239612032 ext 429

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2022 – Skills Competition Wales 2022 

Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
Skills Competition Wales

# Briff y Gystadleuaeth

## Enw’r Gystadleuaeth

**Gosod Brics**

## Trosolwg o’r Gystadleuaeth

Mae gosodwr brics yn gosod brics, cerrig wedi'u torri ymlaen llaw, a blociau concrid i adeiladu waliau mewnol ac allanol ar gyfer adeiladau. Gall y math o wal amrywio o waliau plaen i waith mwy cymhleth.

Yn y gystadleuaeth hon, bydd angen i gystadleuwyr gwblhau prosiect penodol sydd wedi’i gynllunio i herio eu gallu. Disgwylir y bydd yr holl gystadleuwyr yn gallu dilyn darluniau, mesur yn gywir, cynllunio eu hamser yn effeithiol, dangos eu gallu gydag offer, cadw gweithfannau yn lân ac yn daclus, a gweithio’n ddiogel trwy’r adeg.

Cynhelir rowndiau rhagbrofol byw mewn sawl lleoliad ledled Cymru.

## Gofynion Mynediad

Mae'r gystadleuaeth ar gyfer y rhai sy'n hyfforddi ar gyfer gyrfa yn y Diwydiant Adeiladu ac sy'n astudio tuag at gymhwyster Lefel 3 neu brentisiaeth ond nad ydynt eto wedi'u hennill.
Sicrhewch fod gan eich ymgeiswyr y sgiliau a'r gallu angenrheidiol i gwblhau'r dasg.

## Capasiti mynediad Cyfyngiadau gan Sefydliad

Uchafswm o 2 o bob lleoliad a gellir cofrestru uchafswm o 2 wrth gefn rhag ofn absenoldeb.
Dyma'r nifer mwyaf o gystadleuwyr a ganiateir o bob sefydliad ar gyfer y gystadleuaeth hon.
Penderfynir ar hyn yn ôl 'lleoliad' a 'sefydliad'. Mae 'sefydliad' yn cyfeirio at gyflogwr/darparwr hyfforddiant y cystadleuwyr. Mae 'lleoliad' yn cyfeirio at y safle lle mae'r cystadleuydd yn astudio/cael eu cyflogi. Am ragor o wybodaeth am y cyfyngiadau hyn, cliciwch yma

**Hyd y Dasg**
5 awr

## Briff

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

© Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2022 – Skills Competition Wales 2022

Bydd cystadleuwyr yn derbyn darluniau a bydd angen iddynt gyflawni tasg osod brics a fydd yn herio eu gallu i ddilyn cyfarwyddiadau manwl, i gynhyrchu gwaith cywir a thaclus, ac i ddefnyddio deunyddiau'n ddiwastraff wrth weithio o fewn cyfyngiadau amser.

Bydd gofyn i gystadleuwyr ddangos y sgiliau canlynol yn y gystadleuaeth hon;

- Gosod mewn llinell syth
- Plymio, lefelu, a mesur
- Dangos y gallu i uniadu a gosod brics yn daclus
- Dangos taclusrwydd wrth weithio ac arferion Iechyd a Diogelwch da

I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar y darluniau sydd ar wefan Cystadleuaeth Sgiliau Cymru.

## Rhestr Seilwaith

Bydd angen i gystadleuwyr ddod â'u hoffer eu hunain. Bydd technegydd gweithdai ar gael yn y lleoliad i gymysgu a dosbarthu morter i gystadleuwyr ac i lanhau deunyddiau gwastraff drwy gydol y gystadleuaeth.

## Rheolau'r Gystadleuaeth

I weld y telerau ac amodau mynediad a'r rheolau cystadlu yn eu cyfanrwydd ewch i: [www.inspiringskills.gov.wales/terms-and-conditions](www.inspiringskills.gov.wales/terms-and-conditions)

### Rheolau Cystadlu Cyffredinol

- Rhaid diffodd ffonau symudol yn ystod y gweithgareddau cystadlu.
- Ni chaniateir gwrando ar gerddoriaeth gyda chlustffonau yn ystod y gweithgareddau cystadlu.
- Os bydd unrhyw gwestiynau yn ystod y gweithgareddau cystadlu, dylid eu cyfeirio at banel beirniaid y gystadleuaeth.
- Ni ddylai cystadleuwyr gyfathrebu â chystadleuwyr eraill yn ystod gweithgareddau cystadlu.
- Cyfrifoldeb pob cystadleuydd yw cyrraedd yn brydlon ar gyfer pob sesiwn o'r gystadleuaeth. Ni chaniateir amser ychwanegol os byddwch yn cyrraedd yn hwyr.
- Os bydd methiant technegol ar eich offer dylech hysbysu'r panel beirniadu ar unwaith. Bydd amser ychwanegol yn cael ei ganiatau os yw'r nam y tu hwnt i reolaeth y cystadleuydd.

## Marcio ac Asesu

Caiff y gwaith o farcio a beirniadu'r gystadleuaeth ei gynnal gan dîm o arbenigwyr o Ddarparwyr Hyfforddiant, Addysg Bellach, neu Ddiwydiant gan ddefnyddio meini prawf marcio a marciau wedi'u dyrannu i sicrhau cysondeb. Bydd o leiaf un beirniad yn mynychu pob un o'r cystadlaethau rhanbarthol.

Mae pob marc yn wrthrychol a byddant yn cael eu dyfarnu gan y beirniaid fel a ganlyn:

| **Meini Prawf** | **Marciau** |
|---|---|
| Dimensiynau | 22.5% |
| Plymio | 20% |
| Sgwario | 2.5% |
| Lefelu | 10% |
| Alinio | 12.5% |
| Manylion | 12.5% |
| Uniadu | 10% |
| Gorffeniad a thaclusrwydd wrth weithio | 5% |
| Iechyd a Diogelwch | 5% |
| **Cyfanswm** | **100%** |

## Adborth a Chydnabyddiaeth

Bydd adborth llafar Unigol a Grŵp yn cael ei ddarparu ar ddiwedd y gystadleuaeth.

Ni roddir canlyniadau na gwobrau ar y diwrnod gan y bydd angen sicrhau ansawdd y marcio.

Bydd pob cystadleuydd yn cael Tystysgrif Cyfranogi ac yn cael ei wahodd i Ddigwyddiad Dathlu ar-lein a gynhelir Dydd Iau 9eg Mawrth 2023, lle bydd y Wobrau Cyntaf, Ail a Thrydedd yn cael eu cyhoeddi. Bydd manylion pellach yn cael eu cyfleu i gystadleuwyr a'u pwyntiau cyswllt trwy e-bost. Bydd taflenni marciau ar gael i gystadleuwyr ar ôl i'r broses sicrhau ansawdd gael ei chwblhau.

## Arweindd Cystadleuaeth

**Prif Gyswllt:**
Huw Thomas
Cyfeiriad ebost - huw.thomas@ceredigion.ac.uk
01239612032 ext 429